Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**FFORWM CYLLID YSGOLION**
**Dydd Iau, 11 Ionawr 2024**
**(Teams)**

## **N O D I A D A U**

**YN BRESENNOL:**
Sarah Hopkins (Blessed Carlo Acutis)
Sarah Townsin (Coed y Dderwen)
Owen Morgan (Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa)
Rhiannon Stephens-Davies (Ysgol Arbennig Greenfield)
Anna Morris (Ysgol Gynradd Gymunedol Heolgerrig)
Simone Roden (Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen)
Laurence Matuszczyk (Ysgol Gynradd Edwardsville)
Paul Phillips (Ysgol Gynradd Gellifaelog)
David Anstee (Ysgol Gynradd y Graig)
Sue Walker (Cyfarwyddwr Addysg)
Cynghorydd Andrew Barry (Portffolio'r Cabinet ar gyfer Llywodraethu ac Adnoddau)
Liam Hull (Prif Swyddog Cyllid)
Louise Ballinger (Cyfrifydd Addysg)

Joanna Lewis (Rheolwr LMS)

**YN GWEINYDDU:**
Gary Winston (Clerc y Fforwm)

**YMDDIHEURIADAU:**
Stuart James (Afon Taf)
Keith Maher (Ysgol Uwchradd Pen y Dre)
Mike O'Neill (Ysgol Uwchradd Pen y Dre)

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| **1.** | **<u>Croeso</u>**<br>Croesawodd Mrs S Walker bawb gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda ac esbonio mai pwrpas y cyfarfod oedd derbyn diweddariad ar y sefyllfa ariannol ar gyfer 2024/2025. Esboniodd y byddai Liam Hull yn cyflwyno'r wybodaeth.<br><br>LH: Derbyniwyd setliad Llywodraeth Cymru ddiwedd Rhagfyr a chynnydd cyllidebol o 3.4% a oedd yn uwch na'n amcangyfrif o 3.1%. Hwn oedd y pumed setliad uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd y setliad dipyn yn is na'r setliad gofynnol gan adael gagendor ariannol o £13 miliwn ar gyfer 2024/2025.<br><br>Mae hyn yn her enfawr i'r ALl ac mae bron i bob un ALl yng Nghymru yn yr un sefyllfa.<br><br>Mae angen codiad o 8.9% ar yr Adran Addysg er mwyn cyflawni gofynion ychwanegol ac mae'r 4.5% yn gadael gagendor ariannol o £2.7 miliwn i'r Gyfarwyddiaeth. Petai'r ISB wedi cael ei |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | ddefnyddio i bennu toriad cyllideb yr ysgol, byddai'n £2.1 miliwn.<br>SW: Bydd Cyfarfod Penaethiaid am 3:00pm Ddydd Mawrth nesaf a Phwyllgorau Cadeiryddion Llywodraethwyr/Pwyllgorau Cyllidebol am 4:00pm yng Nghanolfan Orbit er mwyn rhannu gwybodaeth.<br><br>AL: I egluro, bydd canran toriad yr ISB oddeutu 4% a bydd angen i ni ystyried sut y byddwn yn dod o hyd iddo yng Nghyfarfod Fforwm yr Ysgolion ar 23 Ionawr. Os byddwn yn cytuno, byddwn yna'n ymgynghori â chyrff llywodraethu unigol.<br><br>**SR: Pa effaith fydd hyn yn ei gael ar gyllideb AAY yr ALl?**<br>LH: Bydd y Gyfarwyddiaeth yn ystyried hynny y mis hwn ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo.<br><br>SR: Os ydym yn edrych am doriadau, mae angen i ni ystyried meysydd eraill cyn AAY yn gyntaf.<br><br>**LM: Os yw AAY yn cael ei ystyried ar gyfer toriadau, mae angen i ni ddynodi pa effaith fyddai hynny'n ei gael ar yr ISB.**<br>SW: Mae'r adran yn edrych ar hyn o bryd ar yr hyn y gallwn ei argymell a gofynnwyd i ni ystyried hyn erbyn diwedd Ionawr.<br><br>AL: Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar dorri £2.1 miliwn i ysgolion a £600,000 i'r adran.<br><br>**LM: Rwy'n croesawu'r ffaith fod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu yn awr ond fel llywodraethwyr, rydym yn dechrau edrych ar ein cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd rhai ysgolion yn wynebu diffyg cyllid eleni ac mae rhagor o doriadau yn achos pryder.**<br>LH: Rwy'n cytuno. Mae'r amserlen ar gyfer gosod cyllidebau erbyn mis Mawrth yn dynn iawn ond gan i ni dderbyn y setliad ddiwedd Rhagfyr, nid oes llawer y gallwn ei wneud.<br><br>**LM: Pryd fydd ysgolion yn derbyn eu dyraniadau fformiwla ar gyfer 2024/2025?**<br>AL: Maent yn gweithio arnynt. Bydd angen i ni dderbyn ystadegau disgyblion erbyn diwedd Ionawr a gobeithio y cawn ddynodiad o effaith y toriadau yn y papurau ymgynghorol.<br><br>**LM: Oes gennym amcangyfrifon o'r cynnydd cyflog i staff ar gyfer 2024/2025?**<br>LH: 4% ar gyfer staff dysgu ac eraill.<br><br>**SR: Os ydym yn edrych am doriad o 4%, bydd yn dod o'r linell waelod. Oes angen trafodaeth?**<br>AL: Dyna'r dull tebygol ond mae angen i ni gytuno ar sut y bydd yn cael ei gyfrifo er mwyn sicrhau tegwch.<br><br>SW: Rwy'n gwerthfawrogi ei fod yn gyfnod anodd ac ni fydd y newyddion yn cael ei groesawu. Mae CLlLC wedi ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn i'r setliad gael ai ailystyried a byddaf yn rhannu hyn gyda chi.<br><br>AB: Rwy'n cytuno â'r sylwadau ynghylch yr amserlen. Mae'n warthus bod angen i ni wneud penderfyniadau o'r fath mewn cyfnod mor fyr o amser. Mae gan yr ALl benderfyniadau caled i'w gwneud a gallai'r flwyddyn nesaf fod hyd yn oed yn waeth. O ran y gyllideb AAY, byddwn yn parhau i lobio ac rydym yn ymwybodol o'r problemau. Mae'n gyfnod anodd ond mae |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | addysg yn parhau i dderbyn ein cefnogaeth a byddwn yn gwneud pob dim posib i gynorthwyo yn ystod y cyfnod anodd hwn.<br><br>**SR: Mae'r penderfyniad i ddarparu prydau ysgol am ddim i weld yn un ffôl nawr. Oes gennym unrhyw syniad o'r arian grant ar gyfer 2024/2025? Mae angen i ni edrych os ydym yn derbyn gwerth am arian gan wasanaethau, yn enwedig y Consortiwm.**<br>SW: Bydd grantiau yn awr yn dod yn uniongyrchol o'r ALl ond nid ydym wedi derbyn unrhyw symiau eto. Mae gennyf gyfarfod ADEW yfory ac efallai y bydd gennyf ragor o wybodaeth i'w rhannu Ddydd Mawrth nesaf.<br><br>**SH: A fydd cynnig ymddiswyddiad gwirfoddol ar gyfer staff ysgolion?**<br>AL: Bydd cynnig yr ysgol yn unol ag unrhyw gynnig gan yr ALl.<br><br>LH: Rydym yn parhau i ystyried ein dull gweithio ond ni allwn gyflawni arbedion ariannol heb leihau costau staff.<br><br>SW: Gobeithio y gallwn ddarparu rhagor o wybodaeth yr wythnos nesaf a gobeithiwn eich gweld bryd hynny. |